‘Peidiwch â chymryd y risg’: Neges atgoffa gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban ac UKHSA na ddylid bwyta amrywiaeth o gynhyrchion wyau Kinder a Schoko-Bon’s dros gyfnod y Pasg

Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon – yn ogystal ag awdurdodau iechyd cyhoeddus a diogelwch bwyd rhyngwladol – i ymchwilio i frigiad o achosion (outbreak) parhaus o Salmonela sy’n gysylltiedig ac amryw gynhyrchion wyau Kinder a Schoko-Bons a gynhyrchwyd yn un o ffatrïoedd cwmni Ferrero, yn Arlon, Gwlad Belg.

Mae manylion llawn y cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt a’r rhybudd galw’n ôl i’w gweld yma.

Yn ôl 15 Ebrill, mae 70 o achosion yn gysylltiedig â’r brigiad o achosion hwn yn y DU. Mae mwyafrif yr achosion ymhlith plant dan 5 oed.

Meddai Emily Miles, Prif Weithredwr yr ASB:

> “Gan ei bod hi’n gyfnod y Pasg, rydym yn annog defnyddwyr yn gryf i ddilyn y cyngor yn yr hysbysiad galw’n ôl diweddaraf ac i wirio unrhyw gynhyrchion Kinder y gallent fod wedi’u prynu eisoes yn erbyn y rhestr a nodir yn yr hysbysiad, gan y gallent beri risg i iechyd. Os oes ganddynt unrhyw gynhyrchion sydd ar y rhestr, ni ddylent eu bwyta a dylent eu taflu i ffwrdd ar unwaith.

> “Rydym ni wedi pwysleisio i’r busnes a’r awdurdodau yng Ngwlad Belg pa mor bwysig yw defnyddio dull rhagofalus wrth alw’r cynhyrchion yn ôl ac rydym ni’n hyderus y byddant yn parhau i roi anghenion defnyddwyr yn gyntaf mewn unrhyw gamau y maent yn eu cymryd."

Meddai’r Fonesig Jenny Harries, Prif Weithredwr Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA):

> “Rydym yn atgoffa pobl o’r rhybudd galw’n ôl hwn gan ei bod yn bosibl bod y nwyddau hyn wedi’u prynu a’u storio fel anrhegion, neu ar gyfer digwyddiadau fel helfa wyau’r Pasg.
>
> “Mae'n hanfodol nad yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu bwyta a’u bod yn cael eu taflu i ffwrdd. Gall haint Salmonela fod yn ddifrifol ac mae llawer o blant yr effeithiwyd arnynt yn yr achos hwn wedi bod yn sâl iawn ac yn gorfod mynd i’r ysbyty, felly dylai unrhyw un sy’n rhoi nwyddau siocled i ffrindiau neu deulu fod yn arbennig o ofalus i sicrhau nad yw eu hanrhegion Pasg yn cynnwys y cynhyrchion hynny sy’n cael eu galw’n ôl.
>
> “Diolch i rieni, gwarcheidwaid ac awdurdodau iechyd cyhoeddus eraill yn y DU a weithiodd gyda ni i ddweud wrthym beth roedd eu plant wedi’i fwyta cyn mynd yn sâl – fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi ffynhonnell bosib haint yn gyflym a bu’n gymorth i ymchwiliadau i’r gadwyn fwyd yn y wlad hon ac yn Ewrop. Rydym yn deall bod hwn wedi bod yn gyfnod pryderus i’r teuluoedd hyn, ac mae eu hymatebion wedi helpu i atal rhagor o blant ac oedolion sy’n agored i niwed rhag cael eu heffeithio.”

Mae symptomau salmonelosis – neu haint â salmonela – fel arfer yn gwella heb driniaeth o fewn ychydig ddyddiau. Fodd bynnag, gall symptomau fod yn fwy difrifol, yn enwedig ymhlith plant ifanc, y rheiny sy’n feichiog a'r rhai â systemau imiwnedd gwan.

Dylai unrhyw un sy’n pryderu bod ganddynt symptomau salmonelosis gysylltu â’u meddyg teulu neu ffonio GIG 111.” Gall salmonela gael ei ledaenu o berson i berson yn ogystal â gan fwyd, felly dylai unrhyw un yr effeithir arnynt sydd â symptomau ddilyn arferion hylendid da fel golchi dwylo’n drylwyr ar ôl defnyddio’r ystafell ymolchi ac osgoi trin bwyd i eraill, lle bo’n bosibl.

Nodiadau i Olygyddion:

Mae’r cynhyrchion canlynol wedi’u galw'n ôl a waeth beth fo’r dyddiad ‘ar ei orau cyn’. Ni ddylid eu bwyta.

Mae’r rhybudd yn cynnwys:

Kinder Surprise 20g & 3x 20g

Kinder Surprise 100g

Kinder Egg Hunt

Kinder Mini Eggs

Kinder Schoko-Bons